

# Adolygiad o'r gwasanaeth post cyffredinol a rheoleiddio'r gwasanaeth post

---

Fersiwn gyfrinachol: mae [X] yn nodi golygiadau  
cyfrinachol

**Datganiad**

Cyhoeddwyd 10 Gorffennaf 2025

# Trosolwg

- 1.1 Mae gwasanaethau post yn dal yn hanfodol i bobl ac i fusnesau ledled y DU, ond mae'r ffordd mae pobl yn eu defnyddio wedi newid. Mae nifer y llythyrau sy'n cael eu hanfon wedi haneru dros y degawd diwethaf ac mae'n parhau i ostwng. Mae llai o lythyrau'n cael eu danfon i bob tŷ yn golygu bod cost danfon pob eitem wedi cynyddu. Ar yr un pryd mae ein hymchwil yn awgrymu bod fforddiadwyedd a dibynadwyedd yn bwysicach i bobl na chyflymder danfon. Nid y DU yw'r unig un sy'n wynebu'r problemau hyn ac mae'r rhan fwyaf o wledydd Ewropeaidd eraill eisoes wedi cymryd camau i ddiwygio eu darpariaeth gwasanaeth cyffredinol a'u targedau ansawdd gwasanaeth.
- 1.2 Mae'n ofynnol i'r Post Brenhinol, fel y darparwr gwasanaeth cyffredinol, ddsbarthu amrywiaeth o gynhyrchion post i gartrefi a busnesau am brisiau fforddiadwy sy'n unffurf ledled y DU. Mae deinameg newidiol y farchnad wedi gwanhau sefyllfa ariannol y Post Brenhinol yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac felly'n bygwth cynaliadwyedd y gwasanaeth post cyffredinol yn ei ffurf bresennol.
- 1.3 Mae'n amlwg bod angen diwygio'r gwasanaeth cyffredinol er mwyn rhoi'r cyfle gorau iddo oroesi. Ym mis Ionawr 2025, ymgynghorom ar set o newidiadau arfaethedig i'r gwasanaeth cyffredinol ("Ymgynghoriad"), fel ei fod yn parhau i ddiwallu anghenion pobl am bost gan roi cyfle i'r Post Brenhinol ddarparu'r gwasanaeth mewn ffordd sy'n gynaliadwy yn ariannol. Rydym wedi ymgynghori'n eang â rhanddeiliaid ac wedi gwrandao'n ofalus ar safbwyntiau ar ein cynigion, gan gynnwys defnyddwyr post, busnesau, gweithredwyr post, grwpiau defnyddwyr, undebau llafur a chyrrff cyhoeddus.
- 1.4 Mae'r Datganiad hwn yn nodi ein penderfyniadau i gefnogi gwasanaeth cyffredinol wedi'i foderneiddio. Rydym yn diogelu buddiannau defnyddwyr drwy wneud cyfres gyfyngedig o newidiadau a fydd yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol ac yn cefnogi ei ddarpariaeth barhaus. Bydd gwireddu manteision y diwygiad nawr yn dibynnu ar weithrediad llwyddiannus gan y Post Brenhinol.

## Ein penderfyniadau – yn gryno

Yn dilyn ein Hymgyngoriad, ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid ac ymchwil defnyddwyr, rydym yn gwneud newidiadau i'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol (USO) ar y Post Brenhinol a newidiadau cyfatebol i rwymedigaeth y Post Brenhinol i ddarparu mynediad i'w rwydwaith llythyrau.

### Newidiadau i amllder danfon llythyrau Ail Ddosbarth

Ar hyn o bryd mae'r USO yn mynnu bod llythyrau Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth yn cael eu danfon chwe diwrnod yr wythnos (dydd Llun i ddydd Sadwrn). Rydym wedi penderfynu dileu'r gofyniad ar y Post Brenhinol i ddanfon llythyrau Ail Ddosbarth chwe diwrnod yr wythnos a chaniatáu iddo ddanfon llythyrau o'r fath bob yn ail ddiwrnod gwaith (dydd Llun i ddydd Gwener). Mae'r newid hwn yn adlewyrchu'r ffaith nad oes angen dau wasanaeth chwe diwrnod yr wythnos ar ddefnyddwyr post mwyach i ddiwallu eu hanghenion rhesymol a'i fwriad yw cefnogi cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth.

Bydd y gofynion ar gyfer danfon llythyrau Dosbarth Cyntaf chwe diwrnod yr wythnos yn aros yr un fath.

### Newidiadau i dargedau ansawdd gwasanaeth

Mae'n rhaid i'r Post Brenhinol gyrraedd targedau ansawdd gwasanaeth penodol i'w gymell i ddarparu gwasanaeth o safon uchel.

Rydym yn cyflwyno targedau post hwyr newydd sy'n darparu targedau ychwanegol ar gyfer dosbarthu eitemau nad ydynt wedi cyrraedd y targed pennawd 'ar amser'. Mae hyn yn adlewyrchu pwysigrwydd gwasanaeth dibynadwy ac yn rhoi cymhelliant pellach i'r Post Brenhinol ddanfôn post yn fwy rhagweladwy heb oedi hir. Ar gyfer post Dosbarth Cyntaf, bydd yn rhaid danfôn 99% o fewn tri diwrnod gwaith. Ar gyfer post Ail Ddosbarth, bydd yn rhaid danfôn 99% o fewn pum diwrnod gwaith.

Rydym yn newid y prif darged ar gyfer danfôn post Dosbarth Cyntaf y diwrnod canlynol o 93% i 90%, a'r prif darged ar gyfer danfôn post Ail Ddosbarth o fewn tri diwrnod gwaith o 98.5% i 95%, er mwyn adlewyrchu dewisiadau pobl yn well a chefnogi cynaliadwyedd ariannol. Rydym hefyd yn ailosod y targed ardal cod post Dosbarth Cyntaf cysylltiedig ar gyfer danfôn y diwrnod gwaith canlynol o 91.5% i 87%. Mae'r targedau hyn yn parhau i fod yn uchel yn ôl safonau rhyngwladol.

### Newidiadau i'r rhwymedigaeth llythyrau mynediad

'Post swmp' yw'r rhan fwyaf o'r llythyrau a anfonir heddiw, y llythyrau a anfonir gan sefydliadau mawr megis banciau, adrannau'r llywodraeth, y GIG neu awdurdodau lleol. Anfonir y llythyrau hyn y tu allan i'r gwasanaeth cyffredinol. I gefnogi cystadleuaeth yn y farchnad hon, rydym yn mynnu bod y Post Brenhinol yn darparu mynediad i'w rwydwaith llythyr, sy'n golygu bod yn rhaid iddo ddanfôn llythyrau sy'n cael eu casglu gan gwmnïau post eraill. Er mwyn gwireddu manteision diwygio'r USO, mae angen newid y rhwymedigaethau mynediad sydd ar y Post Brenhinol i sicrhau ei fod yn gallu gweithredu'r un model danfôn bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos ar gyfer y mwyafrif helaeth o bost. Nod ein penderfyniadau yw galluogi hyn wrth barhau i gefnogi marchnad gystadleuol ar gyfer post swmp sy'n diwallu anghenion sefydliadau mawr a'u cwsmeriaid.

- Mae'r Post Brenhinol yn cyflwyno gwasanaeth mynediad newydd i ddanfôn bob yn ail ddiwrnod yn ystod yr wythnos, a fyddai'n danfôn llythyrau o fewn tri diwrnod yn ystod yr wythnos (D+3) ar ôl casglu gan yr anfonwr. Byddwn yn rheoleiddio'r gwasanaeth newydd hwn yn yr un ffordd ag yr ydym yn rheoleiddio'r gwasanaethau mynediad presennol ar hyn o bryd.
- Byddwn yn parhau i reoleiddio'r gwasanaeth mynediad D+2 presennol ar gyfer post swmp â blaenoriaeth, o leiaf tra bydd y farchnad yn ymateb i'r diwygio.
- Byddwn yn dileu danfôn ar ddydd Sadwrn o wasanaethau mynediad D+5.

## Diogelu'r gwasanaeth cyffredinol

- 1.5 Amcan gwasanaeth post cyffredinol yw gwarantu y darperir gwasanaeth post o ansawdd da am brisiau fforddiadwy, sy'n hygyrch i bawb yn y DU. Mae ganddo dair egwyddor allweddol:
- Cyffredinolrwydd:** sicrhau bod gan bawb yn y DU fynediad at rwydwaith dosbarthu cenedlaethol a set sylfaenol o wasanaethau post
  - Fforddiadwyedd:** sicrhau nad yw mynediad yn cael ei atal gan brisio gwasanaethau post

- iii) **Prisio unffurf:** sicrhau nad yw pobl a busnesau ledled y DU dan anfantais oherwydd eu lleoliad, felly mae pobl yn talu'r un pris ag eraill hyd yn oed os ydyn nhw'n byw mewn lle sy'n ddrytach i'w wasanaethu.

1.6 Dyletswydd graidd Ofcom yw cyflawni ein swyddogaethau mewn ffordd yr ydym yn ystyried a fydd yn sicrhau darpariaeth gwasanaeth cyffredinol ac wrth wneud hynny rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i'r egwyddorion craidd hyn. Fodd bynnag, nid yw manyleb fanwl y gwasanaeth cyffredinol heddiw wedi newid ers iddo gael ei osod yn 2011. Rydym wedi gweld newidiadau sylweddol i ymddygiad pobl yn y cyfnod hwnnw, sydd wedi newid y farchnad llythyrau yn sylfaenol ac wedi cael effaith sylweddol ar sefyllfa ariannol y Post Brenhinol.

## **Mae'r ffordd mae pobl yn defnyddio'r post wedi newid ac mae'r gwasanaeth cyffredinol bellach yn mynd y tu hwnt i anghenion rhesymol defnyddwyr**

- 1.7 Mae'r rhan fwyaf o bobl a sefydliadau'n dibynnu llawer llai ar lythyrau nag yn y gorffennol, yn bennaf gan fod y defnydd o ddewisiadau digidol eraill wedi dod yn gyffredin. Yn y cyd-destun hwnnw rydym wedi asesu'r hyn sydd ei angen yn rhesymol ar bobl gan y gwasanaeth post heddiw. Cawsom lawer o ymatebion a rhywfaint o dystiolaeth newydd ar ein hasesiad dros dro, ac rydym wedi ystyried y rheini'n ofalus wrth ddod i'n casgliadau. Mae ein canfyddiadau allweddol fel a ganlyn:
- a) Mae'n rhesymol i ddefnyddwyr gael gwasanaeth llythyrau dibynadwy sy'n fforddiadwy ac sydd ar gael am bris unffurf.
  - b) Mae defnyddwyr angen gwasanaeth blaenoriaeth diwrnod nesaf, chwe diwrnod yr wythnos, er mai anaml y mae hynny.
  - c) Nid oes angen rhesymol i ddefnyddwyr anfon llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth ar ddydd Sadwrn cyn belled â bod gwasanaeth blaenoriaeth y diwrnod nesaf yn parhau i fod ar gael.
  - d) Nid oes angen i'r mwyafrif o ddefnyddwyr gael llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth i gyrraedd o fewn tri diwrnod gwaith, er bod lleiafrif o ddefnyddwyr a allai fod angen hyn yn rhesymol.
  - e) Mae ar bobl angen gwasanaeth sy'n fforddiadwy ac maent yn ffafrio gwasanaeth un pris i ddanfon i unrhyw le.
- 1.8 Rydym yn dod i'r casgliad bod marchnad lythyrau presennol y DU yn diwallu anghenion rhesymol defnyddwyr i raddau helaeth, ac ar y cyfan, yn rhagori ar anghenion rhesymol defnyddwyr yn achos amlder dosbarthu llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth. Mae hyn yn bwysig oherwydd, os yw manyleb y gwasanaeth cyffredinol yn rhagori ar yr hyn sydd ei angen ar ddefnyddwyr, yna bydd angen adennill y costau ychwanegol gan ddefnyddwyr am ddarparu'r gwasanaethau post hyn sy'n fwy na'r gofyn. Byddai hyn yn y pen draw yn golygu bod defnyddwyr yn talu prisiau uwch na'r angen am rai mathau o gynnyrch. Byddai hefyd yn cyfrannu at yr heriau sy'n wynebu cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth post.

## Mae nifer y llythyrau wedi lleihau ac mae sefyllfa ariannol y Post Brenhinol wedi gwaethgu, gan roi'r gwasanaeth cyffredinol mewn perygl

- 1.9 Mae nifer y llythyrau wedi gostwng wrth i bobl symud at ddewisiadau digidol eraill. Cyrhaeddodd llythyrau eu huchafbwynt tua 2005 ond maent wedi bod yn gostwng ers hynny, a bron wedi haneru ers 2011-12, i 6.6 biliwn o eitemau yn 2023-24<sup>1</sup>. Disgwylir i niferoedd barhau i ostwng. Ar yr un pryd, mae nifer y pwyntiau dosbarthu wedi cynyddu i 32 miliwn o 28 miliwn yn 2008<sup>2</sup>. Gyda niferoedd yn gostwng a phwyntiau dosbarthu cynyddol, mae refeniw llythyrau wedi gostwng<sup>3</sup>.
- 1.10 Mae costau llafur gweithrediad danfon Post Brenhinol yn cyfrif am y rhan fwyaf o'i holl gostau. Wrth ddanfon llythyrau, mae cost gyffredinol dosbarthu un llythyr i dŷ a dosbarthu nifer o lythyrau i'r un tŷ bron yr un fath. Mae hyn yn golygu ei bod yn llawer mwy effeithlon dosbarthu llawer o bost ar unwaith nag dosbarthu'r un faint o bost dros sawl dosbarthiad ar wahân. Felly, gan fod niferoedd llythyrau wedi gostwng, nid yw costau wedi gostwng mor gyflym â refeniw.
- 1.11 Mae'r deinameg newidiol hwn yn y farchnad yn bygwth cynaliadwyedd y trefniadau presennol ar gyfer gwasanaethau post. Mae'r trefniadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Post Brenhinol, cwmni masnachol, sydd wedi'i ddynodi'n ddarparwr gwasanaeth cyffredinol, ddarparu amrywiaeth o gynhyrchion post i gartrefi a busnesau am brisiau fforddiadwy sy'n unffurf ledled y DU. Os yw'r Post Brenhinol, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, mewn sefyllfa ariannol wan, mae hyn yn peryglu cynaliadwyedd y gwasanaeth post – ac felly'r gwasanaeth cyffredinol ei hun. Er nad rôl Ofcom yw cefnogi'r Post Brenhinol fel busnes, mae'n rhaid i ni weithredu yn unol â'n dyletswyddau, gan gynnwys diogelu buddiannau defnyddwyr, sicrhau bod y gwasanaeth cyffredinol yn cael ei ddarparu, ac ystyried bod y gwasanaeth yn gynaliadwy. Yn ein Galwad am Fewnbwn (CFI)<sup>4</sup> ym mis Ionawr 2024, fe wnaethom nodi ein barn bod y gwasanaeth cyffredinol yn gosod baich ariannol sylweddol ar y Post Brenhinol, ac rydym yn parhau i fod o'r farn honno<sup>5</sup>.
- 1.12 Felly, rydym yn monitro perfformiad ariannol y Post Brenhinol yn agos ac yn benodol ei 'Fusnes a Gofnodwyd', y rhwydwaith cyffredin sy'n darparu'r gwasanaeth cyffredinol, yn ogystal â rhai gwasanaethau sydd y tu allan i gwmpas y gwasanaeth cyffredinol (megis post swmp a rhai parseli). Yn seiliedig ar berfformiad ariannol y Post Brenhinol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym yn pryderu ynghylch cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth post. Rydym wedi datgan yn gyson mai un dangosydd cyntaf sy'n dangos bod y gwasanaeth yn gynaliadwy'n ariannol yw bod y Busnes a Gofnodwyd yn sicrhau EBIT 5-10%<sup>6</sup>. Fodd bynnag, nid yw'r Post Brenhinol wedi cyrraedd 5% ers 2015/16. Yn ystod 2023/24, roedd y Post Brenhinol wedi cofnodi colled o £458m gyda EBIT o -6.3% ar gyfer y Busnes a

---

<sup>1</sup> Adolygiad Hooper, 2008. [Saving the Royal Mail's universal postal service in the digital age](#) t.39

<sup>2</sup> Mae nifer y cyfeiriadau yn y DU (pwyntiau dosbarthu) sy'n dod o dan y gwasanaeth post cyffredinol wedi cynyddu o tua 28 miliwn yn 2008 (ar adeg Adolygiad Hooper) i tua 32 miliwn ym mis Rhagfyr 2024, yn ôl y [Ffeil Cyfeiriadau Cod Post](#).

<sup>3</sup> Ac eithrio 2021-22 pan adferodd llythyrau ychydig ar ddiwedd y cyfnodau cloi pandemig a dychwelyd i fusnes arferol.

<sup>4</sup> Ofcom, 2024. Dyfodol y gwasanaeth post cyffredinol - Galwad am Fewnbwn.

<sup>5</sup> Amcangyfrifwyd gennym fod cost net y gwasanaeth cyffredinol rhwng £325m a £675m.

<sup>6</sup> Ofcom, 2022. [Datganiad: Adolygiad o Reoleiddio Post](#).

Gofnodwyd. Ein hasesiad yw y bydd perfformiad ariannol y Post Brenhinol yn parhau i waethygu heb ddiwygio a bod risg sylweddol i gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth. Felly, rydym yn ystyried bod angen diwygio ar frys.

- 1.13 Cynigiodd ein Hymgyngoriad fodel danfon amgen ar ddiwrnodau gwaith ar gyfer llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth yn dilyn cynnig gan y Post Brenhinol, y mae'n amcangyfrif y gallai arwain at arbed hyd at £300m yn 2025/26. Rydym wedi cynnal ein dadansoddiad ein hunain o'r arbedion posibl ac yn amcangyfrif y gallai'r arbedion fod rhwng £250m i £425m. Mae'r amcangyfrifon hyn yn adlewyrchu newidiadau strwythurol parhaus i sylfaen costau a refeniw'r Post Brenhinol, fel y dylai'r Post Brenhinol allu sicrhau arbedion parhaol, hyd yn oed os ydynt yn amrywio, yng nghostau danfon llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth, yn hytrach na sicrhau'r arbedion hyn mewn un flwyddyn. Yn ymarferol, bydd maint yr arbedion net gwirioneddol yn dibynnu ar lwyddiant y Post Brenhinol wrth weithredu'r newidiadau gweithredol angenrheidiol.
- 1.14 Rydym yn dal i fod o'r farn bod y newidiadau hyn i'r USO yn cynnig arbedion net sylweddol o bosibl a fyddai, pe baent yn cael eu gwireddu, yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar gynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth ac felly'n cefnogi ei ddarpariaeth barhaus.

## Ein penderfyniadau

---

- 1.15 Mae gennym bryderon difrifol ynghylch cynaliadwyedd ariannol y gwasanaeth cyffredinol. Credwn, yng ngoleuni ein dyletswyddau statudol, fod yn rhaid inni wneud newidiadau. Nid yw'r newidiadau rydym yn eu gwneud yn ddigonol ar eu pen eu hunain; maent yn gyfraniad pwysig at sicrhau bod gwasanaeth post cyffredinol yn parhau i gael ei ddarparu, a bydd eu llwyddiant nawr yn dibynnu ar allu'r Post Brenhinol i'w rhoi newidiadau ar waith yn weithredol.
- 1.16 Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw gwasanaethau post i amrywiaeth o bobl a busnesau ledled y DU. Rydym wedi ymgynghori'n eang ers cyhoeddi ein Galwad am Fewnbwn, lle ystyriwyd gwahanol opsiynau ar gyfer diwygio. Mae hyn yn cynnwys cyhoeddiad ym mis Medi 2024 i esbonio ein camau nesaf<sup>7</sup> a'n Hymgyngoriad ar gynigion penodol ar gyfer diwygio. Rydym yn croesawu'r ymgysylltiad parhaus gan randdeiliaid drwy gydol y broses hon ac wedi gwranddo'n ofalus ar eu barn a'i hystyried wrth ddod i'n penderfyniadau terfynol.
- 1.17 Mae'r datganiad hwn yn nodi'r penderfyniadau yr ydym yn eu hystyried yn angenrheidiol i foderneiddio'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer yr USO, fel ei fod yn parhau i wasanaethu buddiannau defnyddwyr post ac yn creu'r cyfle gorau i'r gwasanaeth ddod yn gynaliadwy yn ariannol.

## Danfon llythyrau Ail Ddosbarth

- 1.18 Rydym yn dileu'r gofyniad ar y Post Brenhinol i ddanfon llythyrau Ail Ddosbarth chwe diwrnod yr wythnos er mwyn caniatáu iddo ddsbarthu llythyrau o'r fath bob yn ail ddiwrnod gwaith (dydd Llun i ddydd Gwener). Mae hyn yn golygu y gallai rhai llythyrau (os ydynt yn cael eu postio o ddydd Mercher i ddydd Sadwrn) gymryd diwrnod yn hirach i gyrraedd nag ar hyn o bryd, ac eithrio dydd Sul. Nid ydym yn cynnig newid y gofynion i

---

<sup>7</sup> Ofcom, 2024. [Dyfodol y gwasanaeth post cyffredinol – Galwad am Fewnbwn.](#)

ddanfon llythyrau Dosbarth Cyntaf - bydd yn dal yn rhaid eu danfon chwe diwrnod yr wythnos. Nid ydym yn cynnig unrhyw newidiadau i'r fanyleb ar gyfer parseli.

- 1.19 Rydym wedi clywed gan bobl a sefydliadau sy'n gwrthwynebu'r newidiadau hyn ac rydym yn deall eu pryderon. Ar ôl adolygu'n ofalus yr holl ymatebion i'n Hymgyngoriad, rydym yn parhau i fod o'r farn bod y newidiadau er budd gorau defnyddwyr. Yn benodol, mae ein hymchwil yn dangos mai dim ond cyfran fach iawn o bobl (4%) oedd yn ystyried na fyddai eu hanghenion yn cael eu diwallu, a byddai'r newidiadau'n cael effaith negyddol sylweddol iawn arnynt. Rydym wedi edrych yn benodol ar yr effaith ar grwpiau a chymunedau penodol, gan gynnwys y rhai sy'n nodi mwy o ddibyniaeth ar y post, ac wedi canfod bod yr effaith ar y bobl hyn yn debyg<sup>8</sup>.
- 1.20 Mynegodd llawer o randdeiliaid bryder ynghylch fforddiadwyedd presennol y gwasanaeth post cyffredinol ac yn benodol pris llythyrau Dosbarth Cyntaf. Fe wnaethom adolygu fforddiadwyedd yn ddiweddar a chyhoeddi ein casgliadau ym mis Ionawr 2024, lle penderfynon ni gadw cap diogelu ar bris llythyrau Ail Ddosbarth<sup>9</sup>. Rydym yn deall y pryderon ac mae fforddiadwyedd post yn parhau i fod yn flaenoriaeth barhaus i Ofcom. Felly byddwn yn adolygu prisiau a fforddiadwyedd yn ein cam nesaf o waith, fel yr ydym wedi ymrwmo iddo yn ein Cynllun Gwaith 2024/25. Rydym yn bwriadu cyhoeddi ymgynghoriad erbyn Ch4 2025/26.

## Ansawdd gwasanaethau

- 1.21 Mae safon bresennol y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan y Post Brenhinol yn bryder sylweddol i bobl ac i fusnesau. Ym mis Mai 2025, fe wnaethom agor ymchwiliad i danberfformiad y Post Brenhinol yn erbyn y targedau rheoleiddiedig yn ystod 2024/25. Ym mis Rhagfyr 2024, fe wnaethom gyhoeddi ein penderfyniad i roi cosb ariannol arall o £10.5m ar ôl dod i'r casgliad bod y Post Brenhinol wedi methu cyflawni ei rwymedigaethau yn 2023/24<sup>10</sup>. Mae perfformiad y Post Brenhinol yn parhau i fod yn annigonol ac rydym yn disgwyl gweld gwelliant sylweddol.
- 1.22 Gan edrych y tu hwnt i'r camau gweithredu mae angen i'r Post Brenhinol eu cymryd i wella perfformiad o'i gymharu â'r lefelau presennol, credwn ei bod yn iawn ailasesu'r targedau ansawdd gwasanaeth gan gadw'r dyfodol mewn golwg. Gosodwyd y targedau presennol bron i ddau ddegawd yn ôl, ac mae'r farchnad bost wedi newid yn sylweddol. Mae'r newidiadau hyn wedi cynyddu'r anhawster a'r gost fesul uned sy'n gysylltiedig â gweithredu rhwydwaith danfon sy'n gallu cyrraedd lefelau ansawdd gwasanaeth uchel iawn yn gyson, ac mae ein hymchwil yn awgrymu bod fforddiadwyedd a dibynadwyedd yn bwysicach i bobl na chyflymder danfon.
- 1.23 Ystyriodd ein Hymgyngoriad beth ddylai'r lefelau priodol o dargedau allweddol fod yn y tymor hwy. Cynigiom ostyngiadau yn lefel y targedau ar gyfer danfon post Dosbarth Cyntaf

---

<sup>8</sup> Er enghraifft, canfyddwn mai'r gyfran o bobl a ddywedodd na fyddai'r newidiadau i'r gwasanaeth cyffredinol bellach yn diwallu eu hanghenion ac yn cael effaith negyddol sylweddol iawn oedd 4% ledled y DU, 2% o bobl heb gysylltiad rhyngrwyd, 3% o bobl mewn ardaloedd gwledig, 4% o bobl mewn ardaloedd gwledig anghysbell, 5% o bobl mewn cartref sy'n derbyn budd-daliadau, 6% o bobl Cymru, 3% o bobl yng Ngogledd Iwerddon, ac 1% o bobl yng Ngogledd Iwerddon.

<sup>9</sup> Ofcom, 2024. [Datganiad: Adolygiad o gapiau diogelu Ail Ddosbarth.](#)

<sup>10</sup> Fe wnaethon ni hefyd osod dirwy ariannol o £5.6m ar ôl dod i'r casgliad bod y Post Brenhinol wedi methu â chyflawni ei rwymedigaethau yn 2022/23.

ac Ail Ddosbarth ar amser, fel rhan o'n dull cyffredinol i sicrhau bod y gwasanaeth yn adlewyrchu blaenoriaethau pobl yn well ac i gyfrannu at ei wneud yn gynaliadwy yn ariannol.

- 1.24 Roedd yn ddealladwy bod rhanddeiliaid yn bryderus am y targedau newydd yng nghydestun perfformiad diweddar y Post Brenhinol. Rydym yn parhau i gredu bod y newidiadau'n angenrheidiol ac y byddant o fudd i ddefnyddwyr, drwy sicrhau bod y targedau'n adlewyrchu anghenion a dewisiadau pobl, wrth ystyried goblygiadau cost a phrisiau targedau uwch wrth i niferoedd llythyrau barhau i ostwng. Mae ein hymchwil yn dangos bod defnyddwyr yn gyfforddus na fyddai gostyngiadau cymharol fach mewn targedau ansawdd gwasanaeth (ar yr amod eu bod yn cael eu cyflawni) yn peri llawer o anghyfleustra iddynt cyn belled â'u bod yn hyderus y bydd y llythyr yn cael ei ddanfôn heb oedi sylweddol. Mewn cyferbyniad, gwyddom, ar lefelau uchel o ansawdd gwasanaeth (a gyflawnir), fod cynnydd cymharol fach yn yr ansawdd gofynnol yn gostus iawn i'r Post Brenhinol, a byddai'n ceisio trosglwyddo'r costau hyn i ddefnyddwyr. Felly, credwn y dylem ailosod ychydig bach ar y cydbwysedd rhwng y buddion y mae defnyddwyr yn eu cael o darged ansawdd gwasanaeth arbennig o uchel a chostau cyflawni targed o'r fath.
- 1.25 Rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n cynnig am newid bach yn y prif darged ar gyfer post Dosbarth Cyntaf y diwrnod canlynol o 93% i 90% a newid cyfatebol i darged ardal cod post danfôn Dosbarth Cyntaf o 91.5% i 87%, yn ogystal â newid ar gyfer danfôn post Ail Ddosbarth o fewn tri diwrnod o 98.5% i 95%.
- 1.26 Fe wnaethon ni hefyd ymgynghori ar gyflwyno targedau post hwyr newydd. Mae hwn yn newid pwysig i'n fframwaith rheoleiddio ar gyfer ansawdd gwasanaeth sy'n cydnabod y gwerth y mae pobl yn ei roi ar ddibynadwyedd. Mae'r targedau wedi'u cynllunio i sicrhau, hyd yn oed os bydd llythyrau'n methu â chyflawni'r targed ar amser, bod gan ddefnyddwyr hyder y byddant yn cyrraedd o fewn cyfnod rhesymol o amser. Bydd hyn yn mynd i'r afael â'r niwed y mae rhai pobl wedi'i brofi lle mae rhai llythyrau wedi cymryd cyfnod hir i gyrraedd ar ôl methu â chyflawni'r targed dosbarthu cychwynnol.
- 1.27 Roedd cefnogaeth eang i gyflwyno targedau post hwyr. Rydym wedi ystyried y lefel darged terfynol yng ngoleuni tystiolaeth bellach gan y Post Brenhinol ynghylch cyfyngiadau ei allu i dargedu post hwyr o fewn ei weithrediadau dosbarthu. Yn benodol, rydym yn ymwybodol, wrth gyflwyno'r targedau hyn, nad ydym am ei gwneud yn ofynnol yn anfwriadol i'r Post Brenhinol fuddsoddi mwy nag a fyddai'n angenrheidiol i gyrraedd y targedau dosbarthu ar amser diwygiedig, yn absenoldeb problemau dibynadwyedd yn ei rwydwaith. Felly, rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â chyflwyno'r targedau post hwyr a gwneud diwygiad bach i'r lefelau terfynol, fel y bydd y targed ar gyfer Dosbarth Cyntaf yn 99% D+3 (o fewn tri diwrnod gwaith) ac ar gyfer Ail Ddosbarth yn 99% D+5 (o fewn pum diwrnod gwaith).
- 1.28 Yn olaf, nodwn fod nifer o randdeiliaid wedi dweud y dylai cynnydd pellach mewn prisiau ddibynnu ar welliannau yn ansawdd y gwasanaeth. Yn ein gwaith pellach ar brisiau a fforddiadwyedd, byddwn yn ystyried y cynnig hwn.

## Mynediad

- 1.29 Mae'r rhan fwyaf o lythyrau a anfonir heddiw yn bost swmp a anfonir gan sefydliadau mawr, ond nid yw post swmp yn rhan o'r USO. Yn 2023/24, anfonwyd 9 biliwn o lythyrau, ac mae post swmp yn cynrychioli 63% o hynny (5.7 biliwn o eitemau). Mae'r Post Brenhinol yn cynnig ei wasanaethau post swmp ei hun ar sail fasnachol, ond mae ein rheoliad hefyd yn mynnu bod y Post Brenhinol yn cynnig mynediad yn uniongyrchol i gwmnïau sy'n prosesu

post gan sefydliadau mawr cyn defnyddio rhwydwaith y Post Brenhinol i ddanfôn y post hwn (a elwir gyda'i gilydd yn 'gwmnïau mynediad').

- 1.30 Er mwyn gwireddu manteision diwygio'r USO, mae angen newid y rhwymedigaethau mynediad i sicrhau y gall y Post Brenhinol weithredu'r un gwasanaeth danfôn bob dydd o'r wythnos ar gyfer post swmp nad yw'n flaenoriaeth. Rydym am alluogi'r arbedion cost y gall Post Brenhinol eu cyflawni drwy symud i ddanfôn bob dydd o'r wythnos ar gyfer llythyrau nad ydynt yn flaenoriaeth, gan barhau i gefnogi marchnad gystadleuol ar gyfer post swmp sy'n diwallu anghenion sefydliadau mawr a'u cwsmeriaid.
- 1.31 Ar y cyfan, roedd y rhan fwyaf o'r rhai a ymatebodd i'n Hymgyngoriad yn cefnogi ein newidiadau arfaethedig i reoleiddio mynediad. Ar ôl ystyried yn ofalus yr ymatebion, rydym wedi penderfynu ar y canlynol:
- Byddwn yn rheoleiddio gwasanaeth mynediad D+3 newydd gan y Post Brenhinol. Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Post Brenhinol gyhoeddi gwybodaeth am ansawdd gwasanaeth mewn perthynas â'r gwasanaeth hwn er mwyn helpu cwmnïau mynediad i ddal y Post Brenhinol i gyfrif am ei berfformiad.
  - Byddwn yn parhau i reoleiddio'r gwasanaethau mynediad D+2 presennol (a ddanfônir o ddydd Llun i ddydd Sadwrn) am y tro. Dangosodd yr ymatebion y bydd angen parhaus am y gwasanaeth hwn, yn enwedig ar gyfer llythyrau sy'n ymwneud â materion ariannol ac iechyd sy'n sensitif i amser, ac rydym yn credu bod angen rheoleiddio i roi hyder i'r farchnad wrth i'r model diwrnod bob yn ail newydd gael ei sefydlu. Rydym yn deall pryder y Post Brenhinol, os nad yw post blaenoriaeth, gan gynnwys mynediad D+2, yn disgyn o dan lefel benodol, y gallai hyn amharu ar ei allu i weithredu'r model newydd yn effeithiol. Fodd bynnag, credwn fod camau y gall y Post Brenhinol eu cymryd i reoli'r risg hon o fewn terfynau rheoleiddio. Byddwn yn cadw'r mater hwn dan adolygiad ac yn ystyried cyfleoedd yn y dyfodol ar gyfer dadreoleiddio.

## Mae gweithredu effeithiol gan y Post Brenhinol yn hanfodol

---

- 1.32 Rydym yn ystyried bod y newidiadau a nodir uchod yn angenrheidiol i gefnogi'r gwaith parhaus o ddarparu gwasanaeth post cyffredinol, a fydd, yn ei dro, o fudd i ddefnyddwyr, i fusnesau ac i'r economi ehangach. Bydd gwasanaeth cyffredinol sy'n gynaliadwy'n ariannol ac sy'n caniatáu i wasanaethau gael eu darparu'n fwy effeithlon yn cefnogi twf economaidd.
- 1.33 Bydd y newidiadau i'n gwaith o reoleiddio ar gyfer danfôn llythyrau Ail Ddosbarth a llythyrau Mynediad yn dod i rym ar 28 Gorffennaf 2025. Bydd hyn yn sicrhau bod cyfnod lle gall y Post Brenhinol ddechrau'r broses o gyfleu effaith y newidiadau i gwsmeriaid ac i gwmnïau mynediad gadarnhau eu cynlluniau gweithredol. Bydd yn dal i ganiatáu i'r Post Brenhinol fwrw ymlaen ar gyflymder â gweithredu'r newidiadau. Bydd y targedau ansawdd gwasanaeth newydd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2026.
- 1.34 Disgwyliwn i'r Post Brenhinol gyfathrebu'n rhagweithiol y newidiadau allweddol y bydd defnyddwyr yn eu profi o dan y model darparu newydd mewn ffordd glir, gywir a thryloyw. Rydym hefyd yn disgwyl i'r Post Brenhinol sefydlu ffordd newydd i gefnogi ymgysylltiad cadarnhaol â rhanddeiliaid allweddol y diwydiant, er mwyn sicrhau bod y rhanddeiliaid hynny'n cael gwybod am gynnydd y gweithrediad a chael cyfle i gyfrannu at eu profiad.

- 1.35 Bydd sicrhau manteision y newidiadau hyn yn dibynnu ar weithredu'r model gweithredu newydd yn effeithiol gan y Post Brenhinol. Unwaith y bydd y rheoliadau'n dod i rym, penderfyniad y Post Brenhinol yw pryd a sut i weithredu newidiadau i'w weithrediadau. Mae'r Post Brenhinol yn amcangyfrif y bydd gweithredu'r newidiadau angenrheidiol ar draws ei rwydwaith yn cymryd tua 18-24 mis. Byddwn yn monitro'r broses hon yn agos, yn benodol i nodi unrhyw broblemau gyda gweithredu newidiadau, asesu a yw'r arbedion cost wedi'u gwireddu a deall unrhyw effeithiau ar brofiad y defnyddiwr.
- 1.36 Mae hefyd yn amlwg na fydd diwygio'r gwasanaeth cyffredinol yn unig yn darparu'r ateb i heriau gweithredol ac ariannol ehangach y Post Brenhinol. Mae angen camau pellach gan y busnes i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gynaliadwy yn ariannol, gan drawsnewid ei rwydwaith a'i weithrediadau, yn ogystal â gwella twf trwy ei gynnig parseli. Ers i ni gyhoeddi ein Hymgyngoriad, mae EP Group wedi cwblhau pryniant o gwmni rhiant y Post Brenhinol, International Distribution Services Plc. Mae perchnogaeth newydd yn rhoi cyfle i'r Post Brenhinol fynd i'r afael â'r heriau hyn a thrwy hynny wella ei berfformiad ariannol a gwasanaeth.
- 1.37 Yn ein barn ni mae'n annhebygol y gallwn wneud llawer mwy o dan y fframwaith rheoleiddio presennol i ymateb i'r heriau sy'n wynebu'r gwasanaeth. Wrth i'r farchnad llythyr barhau i ddirywio, efallai bydd angen adolygu manyleb y gwasanaeth eto yn y dyfodol, er ein bod yn nodi y byddai unrhyw newidiadau sylweddol pellach yn debygol o olygu newid deddfwriaeth.

## 2. Camau nesaf a diweddariad ar waith arall

### Pryd y dylai'r model dosbarthu ar ddiwrnodau wythnos eraill ddod i rym

---

- 2.1 Yn ein Hymgyngghoriad, fe gynigiom y dylai'r newidiadau i'n rheoliadau ynghylch gwasanaethau dosbarthu a mynediad Ail Ddosbarth ddod i rym ar unwaith<sup>11</sup>. Roedd hyn oherwydd yr angen brys am ddiwygio, gan ganiatáu i'r Post Brenhinol ddechrau'r broses weithredu'n gyflym a sicrhau rhai o'r arbedion cost yn 2025/26.
- 2.2 b. Mae'r Post Brenhinol yn amcangyfrif y bydd gweithredu newidiadau gweithredol i ganiatáu iddo weithredu'r model dosbarthu ar ddiwrnodau wythnos amgen ar draws ei rwydwaith yn cymryd tua 12-18 mis<sup>12</sup>.

### Ymatebion i'r ymgynghoriad

- 2.3 Ailadroddodd y Post Brenhinol na all ddechrau'r broses weithredu yn rhy agos at gyfnod y Nadolig. Mae'r Post Brenhinol wedi datgan bod ei gynllunio presennol yn tybio y gall cyflwyno diwygio USO ddechrau ar 1 Gorffennaf 2025, a fyddai'n caniatáu iddo ddechrau sylweddoli rhai manteision cyn y byddai angen iddo oedi'r broses yn ystod cyfnod prysur y Nadolig. Yna byddai'n parhau â'r broses weithredu yn y flwyddyn newydd. Yn ymateb y Post Brenhinol, dywedodd, pe bai penderfyniad Ofcom yn cael ei ohirio tan ar ôl Gorffennaf 2025, ei bod yn debygol iawn na fyddai'n dechrau ei weithredu tan fis Ionawr 2026.<sup>13</sup>
- 2.4 Rhoddodd y Post Brenhinol wybodaeth bellach i ni hefyd ynghylch ei farn ar ddyddiad cychwyn rheoleiddio, gan gredu y dylai hyn fod ar unwaith yn unol â'n hymgyngghoriad. Tynnodd sylw at y ffaith iddo hysbysu'r farchnad am y newidiadau hyn ym mis Rhagfyr 2024 i roi digon o amser i weithredwyr mynediad a defnyddwyr mawr addasu. Nododd hefyd, yn seiliedig ar drafodaethau gyda chwsmeriaid, ei fod yn credu bod y gadwyn gyflenwi yn barod ar gyfer y newidiadau. Nododd y Post Brenhinol y gallai unrhyw oedi cael effaith ddifrifol ar ei allu i weithredu'r model dosbarthu amgen ar ddiwrnodau gwaith, tra byddai effaith gweithredu ar unwaith ar y farchnad yn fach.<sup>14</sup>
- 2.5 Mewn cyferbyniad, gwnaeth nifer o ymatebwyr sylwadau i ni ynglŷn â phwysigrwydd cael dyddiad cychwyn rheoleiddio hysbys ar gyfer y drefn newydd, am amrywiaeth o resymau.<sup>15</sup>

---

<sup>11</sup> Amod DUSP 1 ac Amod USPA.

<sup>12</sup> [Ymateb y Post Brenhinol i'r CFI 2024](#), t.45.

<sup>13</sup> [Ymateb y Post Brenhinol i Ymgynghoriad 2025](#), t.14.

<sup>14</sup> Y Post Brenhinol. 9 Mehefin 2025. Llythyr at Ofcom ar Weithredu'r drefn mynediad yn y dyfodol, tt.1-7.

<sup>15</sup> [Ymateb MCF 2 o 2 i Ymgynghoriad 2025](#), t.3; [ymateb MUA i Ymgynghoriad 2025](#), t.9; [Ymateb y Grŵp Dosbarthu i Ymgynghoriad 2025](#), tt. 4-5; [Ymateb y Bartneriaeth Bostio Strategol i Ymgynghoriad 2025](#), t.6; [Ymateb Quadiant i Ymgynghoriad 2025](#), t.7; [Ymateb Citipost Mail i Ymgynghoriad 2025](#), t.5; [Ymateb BBS i Ymgynghoriad 2025](#), t.3; [Ymateb Whistl i Ymgynghoriad 2025](#), tt. 4-5; [Ymateb CFH Docmail i Ymgynghoriad 2025](#), t.6.

- 2.6 Nododd y Fforwm Mynediad i'r Post Brenhinol, fel yr eglurwyd yn Adran 7, fod y Post Brenhinol yn bwriadu symud cwsmeriaid yn awtomatig o D+2 i D+3 yn syth ar ôl y diwygiad. Dywedodd y byddai hyn yn creu anhawster i gwsmeriaid mynediad sydd ar hyn o bryd ar fynediad D+2 ac sydd am aros ar y gwasanaeth hwnnw yn dilyn y diwygiad, gan nad yw defnyddwyr mawr bost wedi gwybod pryd y bydd Ofcom yn cyhoeddi ei benderfyniadau terfynol a beth fydd y penderfyniadau hynny<sup>16</sup>. Felly, nid yw defnyddwyr wedi gallu cynllunio sut y gallent ddefnyddio gwasanaethau mynediad D+2 yn y dyfodol. Er enghraifft, efallai y bydd defnyddwyr yn fwy tebygol o ddefnyddio gwasanaethau mynediad D+2 os ydynt yn parhau i fod yn destun rheoleiddio, oherwydd mae hynny'n golygu y byddant wedi'u heithrio rhag TAW ac yn unol â'r sefyllfa bresennol yn destun rheolaeth gwasgfa elw a gofyniad i gael eu darparu ar delerau, amodau a thaliadau teg a rhesymol.<sup>17</sup>
- 2.7 Dywedodd y Fforwm Mynediad Llawn (MCF), heb wybodaeth flaenorol am ein penderfyniadau ac yn wyneb dechrau uniongyrchol y drefn reoleiddio newydd, fod gweithredwyr mynediad a defnyddwyr mawr o bost wedi bod yn amharod, cyn ein penderfyniad, i fuddsoddi yn y newidiadau y mae angen eu gwneud i ddefnyddio gwasanaethau mynediad D+2. Mae newidiadau o'r fath yn cynnwys diweddariadau meddalwedd, newid sut mae post yn cael ei gyflwyno ac adolygu prosesau mewnol drwy gydol y gadwyn gyflenwi i ddarparu ar gyfer safonau gwasanaeth newydd.<sup>18</sup> Byddai buddsoddi yn yr ochr weithredol hon o ddefnydd mynediad D+2 yn y dyfodol wedi peryglu costau gwastraff pe byddem yn penderfynu peidio â rheoleiddio D+2, a defnyddwyr yn penderfynu nad oeddent am ddefnyddio'r gwasanaeth.
- 2.8 Felly, awgrymwyd na ddylai dyddiad cychwyn effeithiol y drefn reoleiddio newydd fod yn ddiwrnod ein penderfyniad ond yn hytrach ei osod ar ddyddiad yn y dyfodol. Byddai hyn yn caniatáu i ddefnyddwyr mawr ystyried eu cymysgedd postio a'u defnydd o wahanol wasanaethau yn y dyfodol gyda sicrwydd ynghylch penderfyniad Ofcom a phris y gwasanaethau.
- 2.9 Roedd ymatebwyr eraill hefyd yn teimlo y byddai unrhyw newid i ddsbarthiadau bob yn ail ddiwrnod gwaith ar gyfer llythyrau Ail Ddsbarth yn ddryslyd i ddefnyddwyr ac roeddent eisiau rhagor o wybodaeth am sut y bydd newidiadau'n cael eu cyfleu i ddefnyddwyr, gan gynnwys yr ystod o sianeli cyfathrebu<sup>19</sup>. Roedd Cyngor ar Bopeth a Swyddfa'r Post yn teimlo y dylai fod digon o amser i ganiatáu i ddefnyddwyr ddeall sut y bydd y newidiadau'n effeithio arnynt.<sup>20</sup> Roedd Banc Tesco yn teimlo y byddai dealltwriaeth defnyddwyr o'r newidiadau hyn yn bwysig ac nid oedd yn glir o'r cynigion sut y bydd defnyddwyr yn cael gwybod am unrhyw newidiadau a'u heffaith bosibl, os cânt eu gweithredu.<sup>21</sup>

---

<sup>16</sup> [Ymateb 2 o 2 gan y Gronfa Gyfyngedig ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol i Ymgynghoriad 2025](#), tt. 2-3.

<sup>17</sup> [Ymateb 2 o 2 gan y Gronfa Gyfyngedig ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol i Ymgynghoriad 2025](#), t.2.

<sup>18</sup> [Ymateb 2 o 2 gan y Gronfa Gyfyngedig ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol i Ymgynghoriad 2025](#), t.2; [Ymateb BBS i Ymgynghoriad 2025](#), t.3; [Ymateb y Grŵp Cyflawni i Ymgynghoriad 2025](#), tt. 4-5; [Ymateb Whistl i Ymgynghoriad 2025](#), t.4; [Ymateb CFH Docmail i Ymgynghoriad 2025](#), t.6.

<sup>19</sup> [Ymateb CCP-ACOD i Ymgynghoriad 2025](#), t.2 ac [Ymateb Defnyddwyr yr Alban i Ymgynghoriad 2025](#), tt.50-51.

<sup>20</sup> [Ymateb Swyddfa'r Post i Ymgynghoriad 2025](#), t.13; [Ymateb Cyngor ar Bopeth i Ymgynghoriad 2025](#), t.34;

<sup>21</sup> [Ymateb Banc Tesco i Ymgynghoriad 2025](#), t.1.

- 2.10 Mae'r Post Brenhinol hefyd wedi ymgynghori ar newidiadau i Gynllun Post y DU ac wedi cyhoeddi penderfyniad<sup>22</sup> ar hyn ond roedd rhai ymatebwyr yn teimlo nad oedd digon o amser wedi'i ystyried i'r farchnad ymateb i ganlyniad ein penderfyniad, ac i gyfleu newidiadau i'r gwasanaeth i ddefnyddwyr post gyda mewnbwn statudol.<sup>23</sup>

## Ein penderfyniad

- 2.11 Rydym wedi ystyried y mewnbwn gan randdeiliaid yn ofalus, ac ar y cyfan rydym yn ystyried na ddylai ein rheoliad ddod i rym ar unwaith ar ôl cyhoeddi ein Datganiad. Yn hytrach, rydym yn ystyried y dylid caniatáu cyfnod byr o amser cyn i'r newidiadau ddod i rym. Bydd hyn yn rhoi amser i randdeiliaid addasu i'r newidiadau, heb achosi gormod o oedi wrth weithredu model dosbarthu newydd. Bydd hyn yn lleihau'r risg o aflonyddwch, fel anfonwyr yn ei chael hi'n angenrheidiol anfon eu post ar y gwasanaeth mynediad D+3 pan fyddent wedi dewis defnyddio'r gwasanaeth mynediad D+2. Bydd hefyd yn caniatáu amser i'r Post Brenhinol barhau â'r broses bwysig o hysbysu defnyddwyr am y newidiadau. Ysgrifennom hefyd at y Post Brenhinol a'i gwneud yn glir bod unrhyw gyfathrebu yn y dyfodol â rhanddeiliaid ar y cynigion yn amodol ar benderfyniadau Ofcom.<sup>24</sup>
- 2.12 Felly, rydym wedi penderfynu y dylai Gorchymyn Gwasanaethau Post (Gwasanaeth Post Cyffredinol) (Diwygio) 2025 ddod i rym ddydd Llun 28 Gorffennaf 2025, ac y dylai'r addasiadau i Amod 1 DUSP ac yna Amod USPA ddod i rym ar yr un dyddiad.<sup>25</sup> Yna, penderfyniad y Post Brenhinol fydd pryd i ddechrau gweithredu unrhyw newidiadau i'w weithrediadau.
- 2.13 Rydym yn ystyried bod y dyddiad hwn yn taro cydbwysedd priodol rhwng yr angen i randdeiliaid y diwydiant addasu i'n penderfyniad a'r amserlen y mae'r Post Brenhinol yn ei dymuno i ddechrau gweithredu'r diwygiad. Dylai'r dyddiad hwn alluogi'r Post Brenhinol i ddechrau gwireddu manteision y diwygiad cyn cyfnod y Nadolig, gan ei fod yn golygu y bydd y newidiadau'n dod i rym cyn diwedd mis Gorffennaf 2025.<sup>26</sup>
- 2.14 Rydym yn disgwyl i'r Post Brenhinol gyfleu newidiadau gwasanaeth yn glir i ddefnyddwyr, gan gynnwys unrhyw ddiweddariadau pellach i delerau ac amodau, wrth iddo addasu ei rwydwaith yn unol â'r USO diwygiedig. Mae Adran 5 yn nodi rhagor o wybodaeth am hyn.

## Trefniadau newydd ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid ar y gwasanaeth cyffredinol

---

- 2.15 Mae'r drafodaeth am ddyfodol y gwasanaeth cyffredinol dros y ddwy flynedd ddiwethaf wedi dangos y ffyrdd amrywiol y mae'n parhau i chwarae rhan bwysig ym mywydau pobl.

---

<sup>22</sup> [Ymgynghoriadau a hysbysiadau](#) – Dim ond ar ôl i ni gyhoeddi ein penderfyniad y bydd newidiadau'n gweithredu'r Cynllun Post newydd. Hyd at yr amser hwnnw, mae'r fframwaith rheoleiddio presennol yn parhau mewn grym a bydd Cynllun presennol y Post Brenhinol yn parhau mewn grym.

<sup>23</sup> [Ymateb BBS i Ymgynghoriad 2025](#), t.3, [ymateb CFH Docmail i Ymgynghoriad 2025](#), t.6, [ymateb CCNI i Ymgynghoriad 2025](#), t.31, [ymateb Cyngor ar Bopeth i Ymgynghoriad 2025](#), t.34, ac [ymateb Defnyddwyr yr Alban i Ymgynghoriad 2025](#), t.15.

<sup>24</sup> [Llythyr at y Post Brenhinol ynghylch amllder eu dosbarthu Ail Ddosbarth](#). 3 Mehefin 2025.

<sup>25</sup> Yr eithriad yw gweithredu'r targedau ansawdd gwasanaeth newydd, a fydd yn dod i rym o 1 Ebrill 2026. Gweler paragraffau 6.184 i 6.186 o Adran 6 a'r hysbysiad statudol yn Atodiad A7.

<sup>26</sup> [Ymateb y Post Brenhinol i Ymgynghoriad 2025](#), t.14.

Wrth i'r gwasanaeth ddatblygu dros amser, mae'n hanfodol bod cyfathrebu clir ac effeithiol rhwng y Post Brenhinol a defnyddwyr y gwasanaeth cyffredinol fel bod anghenion defnyddwyr, a'r heriau o'u diwallu, yn cael eu deall yn iawn gan bawb, gan arwain at fwy o hyder yn y gwasanaeth. Yn y tymor byrrach bydd angen canolbwyntio ar weithrediad y Post Brenhinol o'r newidiadau i'r gwasanaeth cyffredinol sy'n cael eu galluogi gan y penderfyniadau a nodwn yn y Datganiad hwn.

- 2.16 Felly, ochr yn ochr â'n penderfyniadau yn y ddogfen hon, rydym hefyd yn gofyn i'r Post Brenhinol sefydlu fforwm addas iddo ymgysylltu'n gadarnhaol â rhanddeiliaid dros y ddwy flynedd nesaf. Dylai ddarparu mecanwaith i'r Post Brenhinol glywed gan randdeiliaid am brofiadau a safbwyntiau pobl a busnesau fel defnyddwyr y gwasanaeth cyffredinol, yn ogystal â chaniatáu i'r Post Brenhinol drafod cynnydd y model dosbarthu newydd ar ddiwrnodau wythnos eraill. Mater i'r Post Brenhinol fydd penderfynu ar aelodaeth, ond o ystyried y bydd y ffocws ar y gwasanaeth cyffredinol, rydym yn disgwyl y byddai'r grŵp hwn yn cael ei dynnu o'r cyrff defnyddwyr statudol a grwpiau diwydiant sydd wedi cymryd rhan yn ein prosesau ymgynghori i sicrhau ei fod yn cynnwys ystod eang o fuddiannau ledled y DU.
- 2.17 Rydym yn disgwyl i'r Post Brenhinol hysbysu Ofcom o sut y bydd yn sefydlu fforwm o'r fath erbyn 29 Awst 2025, gyda'r bwriad o gynnal y cyfarfod cyntaf yn yr Hydref.

## Cynlluniau peilot y Post Brenhinol

---

- 2.18 Mae'r Post Brenhinol wedi cynnal rhaglen beilot ers mis Chwefror 2025, sydd wedi cynnwys treialu ei fodel gweithredu arfaethedig mewn cymysgedd o leoliadau yn y DU. Mae'r Post Brenhinol wedi dweud ei bod yn angenrheidiol cynnal y cynlluniau peilot er mwyn gallu gweithredu unrhyw newidiadau rheoleiddio cyn gynted â phosibl ar ôl i ni gyhoeddi ein Datganiad, pe baem yn bwrw ymlaen â'n cynigion. Yn ein Hymgyngoriad, nodwyd, o ystyried yr effeithiau cymharol fach ar ddefnyddwyr a'r manteision posibl y gellid eu gwireddu o hwyluso gweithredu cyflymach pe baem yn penderfynu bwrw ymlaen â'n cynigion, y byddem yn annhebygol o gymryd camau gorfodi pe bai'n bwrw ymlaen â chynlluniau peilot yn y ffordd a gynigiwyd. Dywedasom y byddem yn monitro effeithiau unrhyw gynlluniau peilot ar ddefnyddwyr ac, os oedd yn ymddangos bod effaith sylweddol ar ddefnyddwyr, efallai y byddem yn ystyried dull gwahanol.<sup>27</sup>
- 2.19 Rydym wedi monitro cyflwyniad y cynlluniau peilot hyn drwy ein rhaglen fonitro, yn enwedig i nodi unrhyw effeithiau andwyol ar ddefnyddwyr. Roedd hyn yn cynnwys diweddariadau misol ar statws safleoedd peilot a oedd yn cael eu defnyddio. Yn ystod cyflwyniad y gyfran gyntaf o leoliadau peilot, darparodd y Post Brenhinol ddiweddariadau ar y paratoad technegol a'r effaith gychwynnol ar staff a chwsmeriaid, gan gynnwys anfonwyr post swmp. Unwaith y byddai nifer o leoliadau peilot yn fyw, darparodd y Post Brenhinol adroddiadau misol yn erbyn set o ddangosyddion perfformiad allweddol. Rhannodd y Post Brenhinol ei ganfyddiadau allweddol ar feysydd fel prosesu, dosbarthu, a phrofiad y cwsmer. Nid yw ein monitro wedi dangos effeithiau sylweddol i ddefnyddwyr mewn lleoliadau peilot, ac yng ngoleuni hynny rydym wedi cynnal y dull a eglurwyd gennym yn yr Ymgynghoriad. Mae'r cynlluniau peilot wedi rhoi cyfle i'r Post Brenhinol ddeall sut y gellir

---

<sup>27</sup> Ofcom, 2025. [Ymgynghoriad: Adolygiad o'r gwasanaeth post cyffredinol a rheoliadau post eraill](#), t.163.

gweithredu newidiadau'n weithredol ar draws ei rwydwaith, ac rydym yn disgwyl i'w ganfyddiadau gael eu hystyried yn y broses weithredu.

## Diweddariad ar waith pellach a gynlluniwyd

---

- 2.20 Yn ein Hymgyngoriad, fe wnaethom nodi diweddariad ar ein camau nesaf a gwaith arall, a oedd yn cynnwys ein cynllun ar gyfer diwygio rheoleiddio post ymhellach y tu hwnt i'r cynigion a nodwyd yn yr ymgynghoriad. Rydym yn darparu diweddariad pellach ar ein rhaglen waith isod.

## Monitro gweithrediad y model cyflawni newydd

- 2.21 Mae gennym raglen waith ôl-fonitro a byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad nesaf yn Ch3 2025/26. Fel rhan o'r gwaith hwn, byddwn yn parhau i fonitro perfformiad ansawdd gwasanaeth y Post Brenhinol wrth iddo geisio adfer ei berfformiad tuag at y targedau rheoleiddio newydd a'i berfformiad ariannol.
- 2.22 Byddwn yn dechrau gwaith penodol newydd i fonitro sut mae Post Brenhinol yn gweithredu'r newidiadau i'r USO a gwasanaethau mynediad dros y ddwy flynedd nesaf. Byddwn yn gweithio gyda Phost Brenhinol i nodi unrhyw broblemau gyda gweithredu newidiadau, i asesu a yw'r arbedion cost wedi'u gwireddu o drawsnewid ei rwydwaith, yn dilyn ein haddasiadau i Amod 1 DUSP ac Amod USPA, ac i ddeall pa effeithiau, os o gwbl, y mae'r newidiadau'n eu cael ar brofiad y defnyddiwr.
- 2.23 Byddwn yn gweithio gyda'r holl randdeiliaid allweddol gan gynnwys y diwydiant, undebau llafur, cyrff defnyddwyr a'r Llywodraeth, yn ogystal ag ymgysylltu â Phost Brenhinol, ei gwmni rhiant, International Distributions Services Plc, a'i berchennog newydd, EP Group.

## Adolygiad o fforddiadwyedd a phrisio

- 2.24 Bydd ffocws ein gwaith polisi pellach ar bost ar faterion fforddiadwyedd a phrisio, ac rydym yn deall gan randdeiliaid fod hynny'n destun pryder arbennig. Adolygodd Ofcom ei ddull cyffredinol o brisio yn ein Hadolygiad o Reoleiddio Post yn 2022<sup>28</sup> a nododd ei ddull presennol o fforddiadwyedd yn y Datganiad Cap Diogelu yn 2024.<sup>29</sup>
- 2.25 Yn ein gwaith pellach, byddwn yn adolygu ein dull o brisio gwasanaethau USO a gwasanaethau mynediad ac yn ystyried a yw ein dull presennol yn parhau i fod yr un mwyaf priodol. Mae llawer o randdeiliaid wedi dadlau dros gyflwyno rheolaethau prisiau newydd ar wasanaethau USO y tu hwnt i'r rheolaeth bresennol ar Ail Ddosbarth, ac mae rhai wedi dadlau dros gysylltu rheolaethau o'r fath ag ansawdd perfformiad gwasanaeth. Mae rhanddeiliaid eraill wedi dadlau dros newid yn y dull o reoleiddio prisiau gwasanaethau mynediad, i symud i ffwrdd o ddull gwasgfa elw i reolaethau ar daliadau'r Post Brenhinol, neu i ddefnyddio prawf gwasgfa elw a rheolaethau prisiau. Mae'r Post Brenhinol wedi cwestiynu a oes problem fforddiadwyedd ac wedi awgrymu, os oes problem, y dylid mabwysiadu rheoleiddio mwy wedi'i dargedu sy'n caniatáu ar gyfer atebion pwrpasol.

---

<sup>28</sup> Ofcom, 2022. [Datganiad: Adolygiad o reoleiddio post.](#)

<sup>29</sup> Ofcom, 2024. [Datganiad: Adolygiad o gapiau diogelu Ail Ddosbarth.](#)

- 2.26 Byddwn yn cynnal adolygiad o brisio a fforddiadwyedd a fydd yn ystyried y pwyntiau a godwyd gan randdeiliaid ac yn ymgynghori ar ein dull cyn i'r rheolaeth bresennol ar brisiau llythyrau Ail Ddosbarth ddod i ben ym mis Mawrth 2027. Rydym yn bwriadu cyhoeddi ymgynghoriad yn Ch4 2025/26.<sup>30</sup>

## Cyfeirio a Chasglu

- 2.27 Cododd nifer o ymatebwyr i'n Hymgyngoriad faterion grwpiau penodol sy'n agored i niwed, er enghraifft pobl ddigartref, a'u gallu i gael mynediad at bost lle nad oes ganddynt gyfeiriad lle gallant dderbyn post, a elwir yn aml yn Cyfeirio a Chasglu. Y mater hwn yw a ellir dylunio gwasanaeth i ddarparu cyfeiriad amgen i'r defnyddwyr hyn, er enghraifft Swyddfa Bost, lle maent yn derbyn post.
- 2.28 Rydym yn cydnabod bod hwn yn fater pwysig ac rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i chwarae rhan wrth geisio dod o hyd i ffordd ymlaen. Fodd bynnag, mae'n mynd y tu hwnt i gwmpas cylch gwaith Ofcom gan ei fod yn debygol o olygu bod Swyddfa'r Post, nad yw Ofcom yn ei rheoleiddio, yn ogystal â'r Post Brenhinol, ac o bosibl y Llywodraeth, yn cymryd camau gweithredu. Byddwn yn parhau i gydlynu rhanddeiliaid i wneud cynnydd ar y mater hwn. Yn dilyn trafodaeth bwrdd crwn ym mis Hydref 2024, gofynnwyd i randdeiliaid allweddol gydweithio i ddylunio sut olwg fyddai ar wasanaeth Cyfeirio a Chasglu ac i ystyried dyluniad peilot ar raddfa fach i brofi'r fenter hon<sup>31</sup>. Mae rhanddeiliaid allweddol wedi gofyn i ni gydlynu bwrdd crwn arall yn Hydref 2025 i randdeiliaid rannu eu canfyddiadau, a byddwn yn eu cefnogi.

---

<sup>30</sup> Ofcom, 2025. [Datganiad – Cynllun Gwaith 2025/26](#), t.11.

<sup>31</sup> Ofcom, 2025. [Ymgynghoriad: Adolygiad o'r gwasanaeth post cyffredinol a rheoliadau post eraill](#), t.164.